Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Nodyn cyngor i Weinidogion Cymru ar gynllunio ieithyddol cymunedol

Gorffennaf 2026

1 **Crynodeb gweithredol:** Nodyn cyngor i Weinidogion Cymru ar gynllunio ieithyddol cymunedol

1.1 **Pwrpas:** Mae'r nodyn cyngor hwn yn darparu cyngor i Weinidogion Cymru ar y camau y gellid eu cymryd er mwyn manteisio ymhellach ar botensial y safonau hybu fel fframwaith ar gyfer cydlynu cynllunio ieithyddol cymunedol ar draws Cymru. Byddai gweithredu yn unol â'r cyngor hwn yn ymateb i rai o argymhellion pwysig y Comisiwn Cymunedau Cymraeg, a thrwy hynny yn cyfrannu at gyflawni amcanion polisi cenedlaethol i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.

1.2 **Yr her strategol:** Mae'r dystiolaeth yn dangos yn glir bod y defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg yn gyfyngedig. Er gwaetha'r ffaith fod cyfran sylweddol o blant a phobl ifanc yn gallu'r Gymraeg heddiw, canran llawer yn llai o'r rhain sy'n datgan eu bod yn defnyddio'r iaith mewn sefyllfaoedd cymdeithasol y tu allan a thu hwnt i'r gyfundrefn addysg.

1.3 **Risg:** Heb ddull mwy cadarn a chydlynol o gynllunio ieithyddol cymunedol:

- Mae perygl na fydd y cynnydd yn nifer siaradwyr y Gymraeg yn cael ei drosi'n gynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg ar lawr gwlad.
- Bydd y Gymraeg yn parhau i wanhau fel iaith gymunedol, gan gynnwys mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.
- Bydd buddsoddiad mewn addysg Gymraeg ac ymdrechion i hybu a hwyluso defnyddio'r iaith yn llai effeithiol, gyda'r Gymraeg yn cael ei chyfyngu'n gynyddol i gyd-destunau sefydliadol.

1.4 **Y datrysiad sy'n cael ei gynnig:** Yn unol ag argymhelliad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg, dylid diwygio'r safonau hybu er mwyn creu fframwaith statudol cryfach a mwy effeithiol ar gyfer cynllunio ieithyddol cymunedol. Byddai hyn yn golygu:

- ym mhob rhan o Gymru bod strategaethau hybu awdurdodau lleol yn gerbydau ar gyfer cynllunio ieithyddol cymunedol dwys ar lefel leol, gan ganolbwyntio ar greu a chynnal gofodau amrywiol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg.
- mewn ardaloedd o arwyddocâd dwysedd uwch bod y strategaethau hybu hefyd yn fframwaith sy'n cefnogi datblygiad polisi cyhoeddus er lles y Gymraeg, gan gynnwys targedu a gwerthuso traweffaith ymyraethau polisi mewn meysydd pwysig fel cynllunio, tai, addysg a pholisi economaidd.
- pennu disgwyliadau cryfach a mwy penodol o ran cynnwys y strategaethau hybu, gan nodi'r math o ddeilliannau, targedau a dangosyddion y dylid eu gosod.
- ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddatblygu a gweithredu strategaethau hybu mewn ffordd mwy strategol a chydweithredol, gan ddod â nifer o fudiadau, cymdeithasau a sefydliadu ynghyd i'w gweithredu.
- cryfhau trefniadau monitro, adrodd a gwerthuso'r strategaethau hybu.
- ehangu rôl Comisiynydd y Gymraeg i gefnogi gweithredu, asesu effaith a darparu cyngor ar gyflawniad y strategaethau hybu.

1.5 Y weledigaeth yw y byddai'r strategaethau hybu yn ymdebygu i Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, ond yn canolbwyntio ar gynyddu'r defnydd o'r iaith, gan gryfhau'n sylweddol y cyswllt rhwng polisi cenedlaethol a gweithredu lleol. Byddai'r strategaethau hybu'n cydblethu ac yn adeiladu ar y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, gan sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd yn siarad Cymraeg mewn ysgolion yn cael cyfleoedd amlwg ac amrywiol i ddefnyddio'r iaith y tu allan a thu hwnt i'r ysgol.

1.6 Y camau sydd angen eu cymryd gan Weinidogion Cymru

- Cytuno i ehangu cwmpas adolygiad y safonau hybu er mwyn gwireddu potensial strategaethau hybu'r Gymraeg fel cerbyd a mecanwaith ar gyfer cynllunio ieithyddol cymunedol dwys.
- Gweithredu proses o ddatblygu opsiynau polisi a deddfwriaethol manwl, gan gynnwys:
    - Ystyried pwerau Gweinidogion Cymru dan Adran 26(1), 26(2) a 27(4) Mesur y Gymraeg (Cymru) i wneud darpariaeth ychwanegol ynghylch y safonau hybu
    - Ystyried pa fath o ofynion cryfach a mwy penodol y gellid eu cynnwys mewn rheoliadau mewn perthynas â'r strategaethau hybu
    - Pa fath o weithdrefnau a threfniadau monitro ac atebolrwydd y gellid eu cynnwys er mwyn cryfhau traweffaith y strategaethau hybu
    - Ystyried mewn trafodaeth â Chomisiynydd y Gymraeg, fel ymgynghorai statudol, beth fyddai rôl y Comisiynydd ac adrannau perthnasol o Lywodraeth Cymru mewn cyfundrefn ddiwygiedig o'r fath
- Asesu goblygiadau gweithredu yn y dull hwn ar ddulliau ariannu ac adnoddau awdurdodau lleol, partneriaid sy'n gyfrifol am ddarparu gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg ac ar Gomisiynydd y Gymraeg.

2 **Y cyngor llawn:** cynyddu cyrhaeddiad a chyfraniad strategaethau hybu at gyflawni polisi cenedlaethol Llywodraeth Cymru

2.1 Mae adran 4 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd arnaf i gynnig cyngor a chymorth i Weinidogion Cymru ar unrhyw fater sy'n berthnasol i swyddogaethau'r Comisiynydd neu sy'n ymwneud â hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. O dan y ddarpariaeth hon rwy'n cyflwyno'r nodyn cyngor hwn i egluro'r camau rwyf yn eu hystyried yn angenrheidiol i gryfhau cynllunio ieithyddol cymunedol er mwyn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.

3 Ein gweledigaeth

3.1 Rydym yn dymuno gweld cynnydd sylweddol yn y defnydd a wneir o'r Gymraeg mewn cymunedau ar draws Cymru gan gyflawni amcan polisi Llywodraeth Cymru o ddyblu defnydd dyddiol o'r iaith erbyn 2050. Ein gweledigaeth yw bod mwy o siaradwyr Cymraeg yn defnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol mewn gwahanol gyd-destunau a gofodau. Rydym am weld newid sylweddol yn arferion ieithyddol plant a phobl ifanc yn benodol, gyda mwy ohonynt yn defnyddio'r iaith yn naturiol y tu allan i giatiau'r ysgol, gyda'u ffrindiau wrth gymdeithasu, ac wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol, cymunedol a chwaraeon.

3.2 Er mwyn cyflawni hyn bydd angen cyfleoedd amrywiol ac amlwg i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio a mwynhau'r iaith o ddydd i ddydd. Y nod yw Cymru lle mae'r Gymraeg yn iaith fyw ym mhob cymuned a lle mae defnyddio'r Gymraeg yn ddewis naturiol a hawdd ym mhob rhan o'r wlad.

3.3 Fel rhan o wireddu'r weledigaeth hon, bydd awdurdodau lleol yn arwain ymdrechion cynllunio ieithyddol cymunedol dwys ac uchelgeisiol. Byddai'r cynllunio ieithyddol cymunedol hwn yn ymateb i sefyllfa'r Gymraeg ar lefel leol, gan deilwra ymatebion yn ddibynnol ar ffactorau fel dwysedd y siaradwyr ac anghenion penodol yr ardaloedd. Bydd awdurdodau lleol yn cydlynu ymdrechion gwahanol sefydliadau a mudiadau, ac yn cynllunio'n strategol ar gyfer cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol. Bydd cyllid ac adnoddau digonol ar gael i weithredu'r cynlluniau hyn ac er mwyn hybu a hwyluso'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg yn lleol.

4 Y sefyllfa bresennol a'r heriau

4.1 **Defnydd cyfyngedig o'r Gymraeg:** Mae'r dadansoddiadau manwl o ganlyniadau Cyfrifiad 2021 a gynigir yn adroddiad 5 mlynedd y Comisiynydd yn dangos yn glir bod nifer sylweddol o blant a phobl ifanc yn colli gafael ar eu sgiliau wrth iddynt fynd yn hŷn. Mae'n debygol mai un o'r prif resymau dros hyn yw diffyg defnydd o'r iaith mewn sefyllfaoedd cymdeithasol y tu allan a thu hwnt i'r gyfundrefn addysg. Mae ein

hymchwil ni[1] ac eraill yn pwysleisio bod ein pobl ifanc yn cynyddol fyw mewn cyd-destun lle mai'r Saesneg yw iaith chwarae ac adloniant a bod perygl gwirioneddol felly fod y cynnydd yn nifer y siaradwyr a welwn drwy'r system addysg yn cael ei gadw o fewn muriau'r ysgol.

4.2 Tueddiadau yn nemograffeg siaradwyr Cymraeg ddim yn creu amodau ffafriol i gynyddu defnydd: Mae llai o siaradwyr Cymraeg heddiw nag oedd ddeng mlynedd yn ôl, mae shifft sylweddol wedi bod o'r cartref i'r ysgol fel prif ffynhonnell siaradwyr Cymraeg newydd, a gwyddom fod dwysedd siaradwyr yng nghadarnleoedd traddodiadol y Gymraeg yn lleihau. Mae'n dilyn yn naturiol bod y newid demograffaidd hwn yn cael traweffaith ar y defnydd o'r Gymraeg hefyd.

4.3 Diffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn ardaloedd dwysedd is: Mewn ardaloedd lle mae dwysedd is o siaradwyr mae diffyg cyfleoedd naturiol i ddefnyddio'r Gymraeg gan nad yw'r mas critigol o siaradwyr o reidrwydd yn bodoli ar gyfer sicrhau cyfleoedd hawdd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Yn yr ardaloedd yma mae angen creu mwy o ofodau lle mae modd defnyddio'r Gymraeg, ac mae angen mwy o gefnogaeth i gynnal gweithgareddau hamdden a diwylliannol trwy gyfrwng y Gymraeg.

4.4 Er bod nifer o sefydliadau a mudiadau eisoes yn gweithredu er mwyn cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ardaloedd hyn, mae angen cefnogi'r gwaith hwn ymhellach drwy gynyddu buddsoddiad a sicrhau bod gwahanol ymdrechion yn cael eu cydlynu mewn ffordd fwy pwrpasol a strategol.

4.5 Her gwirioneddol i gynaliadwyedd ardaloedd dwysedd uwch: Mewn ardaloedd sydd â dwysedd uwch o siaradwyr mae llawer mwy o gyfleoedd naturiol i ddefnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol yn bodoli. Er hyn, rydym yn gwybod ar sail ymchwil[2] a phrofiad fod y defnydd o'r Gymraeg fel iaith naturiol yn y cymunedau hyn yn gwanhau. Mae llai o blant yn yr ardaloedd hyn yn siarad Cymraeg gartref ac yn gymdeithasol heddiw, ac mae allfudo a ffactorau economaidd-gymdeithasol ehangach yn erydu'r defnydd o'r Gymraeg ymhellach o fewn y cymunedau hyn. Mae sicrhau bod y Gymraeg yn parhau fel iaith gymunedol yn y cymunedau hyn yn un o'r materion mwyaf arwyddocaol i ddyfodol y Gymraeg.

4.6 Mae datrys yr heriau hyn yn gofyn am ymyrraeth sylweddol o safbwynt cynllunio ieithyddol cymunedol, a hefyd mewn meysydd polisi cysylltiedig fel cynllunio gwlad a thref, tai, a datblygu economaidd. Nid yw'n ymddangos fod yr atebion sy'n cael eu cynnig ar hyn o bryd yn ddigonol nac yn cael eu cydlynu'n ddigon effeithiol i wyrdroi tueddiadau pryderus yn yr ardaloedd hyn.

[1] Adroddiad Ymchwil Comisiynydd y Gymraeg ar ddefnydd y Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc, ac Arolwg Defnydd Iaith 2019-20 Llywodraeth Cymru

[2] Gweler adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg: Grymuso cymunedau, cryfhau'r Gymraeg, a hefyd Adroddiad 5 Mlynedd Comisiynydd y Gymraeg, 2021-25

5 Perthnasedd y safonau hybu fel rhan o'r ateb

5.1 Mae'r heriau uchod yn rhai cymhleth, ac mae'r atebion yn debygol o fod yr un mor gymhleth ac aml-haenog. Fel mae'r Comisiwn Cymunedau Cymraeg eisoes wedi ei nodi, un rhan bosib o'r ateb fyddai manteisio ymhellach ar botensial y safonau hybu a'r gofynion sydd ar awdurdodau lleol ac awdurdodau parciau cenedlaethol i lunio strategaethau 5 mlynedd ar gyfer hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Nid yn unig mae gan y safonau hybu botensial pellach o ran dwysau a chydlynu ymdrechion i gynyddu defnydd iaith yn lleol, ond hefyd o safbwynt creu fframwaith cynllunio a gwerthuso ar gyfer cyflwyno ymyraethau polisi angenrheidiol mewn ardaloedd o arwyddocâd dwysedd uwch.

5.2 Bwriad y strategaethau 5 mlynedd yw sicrhau bod awdurdodau lleol yn cynllunio ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn lleol. Er bod y safonau yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol lunio a gwerthuso'r strategaethau hyn, teg yw casglu bod llwyddiant a thraweffaith y strategaethau wedi bod yn gymysg, ac ar y cyfan yn gyfyngedig.

5.3 Dangosodd ymchwil a gomisiynwyd gan y Comisiynydd fod rhai awdurdodau lleol wedi arloesi, ond bod strategaethau eraill yn parhau i fod yn ddatganiadau lefel uchel gyda dilyniant cyfyngedig. Gan fod y disgwyliadau'n amwys, nid yw awdurdodau lleol bob tro yn cydweithio'n ddigonol â phartneriaid lleol fel Mentrau Iaith, grwpiau ieuenctid, neu glybiau chwaraeon wrth ddrafftio eu strategaethau. Gwyddom hefyd nad yw'r strategaethau hyn wastad yn cael eu cydlynu yn effeithiol â strategaethau eraill awdurdodau lleol, er enghraifft Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, cynlluniau llesiant lleol, cynlluniau datblygu lleol, a chynlluniau economaidd.

5.4 Mae dogfen gyngor y Comisiynydd ar gydymffurfio gyda'r safonau hybu yn rhoi anogaeth i awdurdodau lleol ystyried y cyd-destun cynllunio ieithyddol ehangach. Er hynny, nid oes perthynas uniongyrchol a phendant rhwng gofynion y safonau a pholisi cenedlaethol ar gyfer cynyddu'r niferoedd o siaradwyr Cymraeg na'r defnydd ohoni yng Nghymru. Yn syml, nid yw llawn botensial y strategaethau hybu fel offeryn ar gyfer cynllunio ieithyddol cymunedol wedi'i wireddu eto.

5.5 Mae gwella trefniadau awdurdodau lleol ac awdurdodau parciau cenedlaethol i baratoi a gwerthuso'r strategaethau yn un o flaenoriaethau cynllun strategol y Comisiynydd ar gyfer 2025-30. Er hyn, rhaid cydnabod bod cyfyngiadau ar allu'r Comisiynydd i ddylanwadu ar gynnwys a llwyddiant gweithrediad y strategaethau ar hyn o bryd. Nid yw'r safonau yn pennu disgwyliadau clir o ran cynnwys y strategaethau, nac ychwaith yn pennu proses ar gyfer monitro a chraffu arnynt.

5.6 Mae adroddiad cam cyntaf ac ail gam y Comisiwn Cymunedau Cymraeg yn gwneud argymhellion ynghylch potensial y safonau hybu a strategaethau hybu awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol fel fframwaith ar gyfer cryfhau a chydlynu cynllunio ieithyddol cymunedol a lleol.

5.7 Mae adroddiad cam cyntaf y Comisiwn yn argymell (argymhelliad 51) y dylid diwygio'r safonau hybu fel eu bod yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau nodi'n

benodol sut y byddant yn darparu ar gyfer ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Yn ôl y Comisiwn byddai diwygio gofynion y safonau hybu yn gallu cyfrannu'n sylweddol at ddod â'r cysyniad o ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yn fyw, gan ddarparu fframwaith ar gyfer datblygu a gwerthuso ymyraethau polisi yn yr ardaloedd hyn. Gall y strategaethau hybu felly fod yn gyfrwng ar gyfer cynllunio, cyflwyno a monitro effaith ymyraethau sy'n amrywio polisi cenedlaethol mewn meysydd allweddol fel addysg, cynllunio, tai, a datblygu economaidd.

5.8 Mae adroddiad ail gam y Comisiwn hefyd yn argymell bod angen cryfhau cynllunio ieithyddol cymunedol er mwyn ymestyn ac ehangu'r defnydd o'r Gymraeg mewn ardaloedd dwysedd canol ac is, a bod gan y strategaethau hybu rôl neilltuol bwysig yn y cyd-destun hwn (argymhellion 4 a 10).

5.9 Mae Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 yn cynnwys darpariaethau i adolygu'r safonau hybu er mwyn hwyluso cyflawni targedau statudol a chenedlaethol ynghylch defnyddio'r Gymraeg. Rydym yn ystyried yr adolygiad hwn yn gyfle euraidd i wireddu potensial y safonau hybu yn llawn, ac i weithredu rhai o argymhellion y Comisiwn Cymunedau Cymraeg.

6 **Ein cynnig:** cynyddu cyrhaeddiad a chyfraniad strategaethau hybu at gyflawni polisi cenedlaethol Llywodraeth Cymru

6.1 Rydym yn cynghori bod y Llywodraeth yn defnyddio'r adolygiad o'r safonau hybu fel cyfle strategol i wireddu potensial strategaethau hybu'r Gymraeg fel cerbyd a mecanwaith ar gyfer cynllunio ieithyddol cymunedol dwys. Bydd hyn yn sicrhau eu bod yn cyfrannu i'r eithaf tuag at gyflawniad amcanion polisi cenedlaethol ynghylch defnydd iaith. Rydym am weld y strategaethau hybu yn datblygu'n strwythurau cydweithredol fydd yn cael eu harwain gan awdurdodau lleol a fyddai'n atebol am eu gweithredu ond yn dwyn ynghyd nifer o fudiadau, cymdeithasau a sefydliadau er mwyn cynllunio a gweithredu strategaethau cynllunio ieithyddol lleol. Byddai gan y Comisiynydd rôl ganolog yn cefnogi awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol, yn sicrhau bod gweithrediad effeithiol sefydliadau o'r strategaethau yn unol â gofynion y safonau hyn, yn rhannu arfer da, ac yn darparu cyngor i'r awdurdodau lleol, parciau cenedlaethola'r Llywodraeth fel ei gilydd.

Cam 1: Defnyddio adolygiad y safonau hybu fel cyfle strategol i drawsnewid cyfraniad strategaethau hybu'r Gymraeg i gyflawniad polisi cenedlaethol

6.2 Mae Adran 26(1) a 26(2) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn galluogi Gweinidogion Cymru drwy reoliadau i bennu un neu ragor o safonau hybu ac i wneud darpariaeth ychwanegol ynghylch y safonau hynny. Mae Adran 27(4) y Mesur yn nodi y gall y safonau a bennir o dan adran 26(1) neu reoliadau o dan adran 26(2) ymdrin â'r materion canlynol:

- Gweithdrefnau sydd i'w dilyn gan bersonau

- Casglu gwybodaeth gan bersonau
- Gwybodaeth y mae'n rhaid trefnu iddi fod ar gael i'r Comisiynydd
- Trefniadau monitro a gofynion cyhoeddusrwydd
- Gofynion adrodd

Mae Adran 150(5) y Mesur hefyd yn nodi bod unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru i wneud gorchymyn neu reoliadau dan y Mesur hwn yn cynnwys pŵer i wneud darpariaeth wahanol ar gyfer ardaloedd daearyddol gwahanol.

6.3 Fel rhan o'r adolygiad safonau gallai Gweinidogion Cymru ddefnyddio'r darpariaethau uchod er mwyn gosod gofynion pellach ar awdurdodau lleol ac awdurdodau parciau cenedlaethol. Ein gweledigaeth ni yw y byddai'r gofynion hyn i raddau'n ymdebygu i ofynion Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019, ond yn canolbwyntio'n benodol ar gynyddu'r defnydd o'r iaith.

6.4 O ran **cynnwys a gweithdrefn y strategaethau hybu** gallai'r safonau diwygiedig ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ac awdurdodau parciau cenedlaethol:

- Bennu targedau, amcanion a dangosyddion ynghylch cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn eu hardal leol, gan gynnwys y math o ddata y bydd rhaid iddynt ei gasglu er mwyn adrodd ar gynnydd.
- Llunio strategaeth yn nodi sut y byddant yn cyflawni'r targedau a'r amcanion hyn, gan gynnwys pryd y bydd rhaid iddynt adolygu a diwygio'r strategaethau.
- Pennu cynnwys disgwyliedig y strategaethau hyn. Er enghraifft gallasai'r rheoliadau fod yn fwy rhagnodol ynghylch deilliannau'r strategaethau, neu drwy ei wneud yn ofynnol i sefydliadau roi sylw dyledus i ganllawiau pellach sy'n cael eu cyflwyno gan y Llywodraeth neu'r Comisiynydd.
- Mabwysiadu dull cydweithredol o lunio a gweithredu'r strategaethau hybu fydd yn dwyn ynghyd nifer o fudiadau, cymdeithasau a sefydliadau at ei gilydd (er enghraifft, y Mentrau Iaith, yr Urdd, yr Eisteddfod Genedlaethol, mudiadau ieuenctid, clybiau ffermwyr ifanc, clybiau chwaraeon, darparwyr addysg, sefydliadau diwylliannol a grwpiau cymdeithasol) ac sy'n gydlynus â strategaethau a pholisïau ehangach perthnasol ar lefel awdurdod lleol ac yn rhanbarthol. Er bod cyfraniad gan fudiadau eraill at gynllunio a gweithredu'r strategaethau hybu, yr awdurdodau lleol fyddai'n gyfrifol ac yn atebol am eu gweithredu.
- Mewn ardaloedd o arwyddocâd dwysedd uwch bod y strategaethau hybu yn fframwaith ar gyfer cynllunio, monitro ac adrodd ar ymyraethau sy'n amrywio polisi cyhoeddus mewn meysydd allweddol fel cynllunio, tai, addysg a pholisi economaidd.

6.5 O ran **rhannu gwybodaeth, monitro ac adrodd** gallai'r safonau diwygiedig ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ac awdurdodau parciau cenedlaethol:

- Adrodd yn flynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg ar gyflawniad y strategaeth gan gynnwys y prif dargedau a'r amcanion. Mewn ardaloedd o arwyddocâd dwysedd

uwch byddai hefyd ofyniad i adrodd ar effaith ymyraethau sy'n amrywio polisi cyhoeddus.
- Rhannu gwybodaeth â Chomisiynydd y Gymraeg ynghylch materion fel cynnydd yn erbyn amcanion a thargedau'r strategaeth, neu ddata sy'n cael ei gasglu fel rhan o weithredu'r strategaeth.
- Adrodd ar ddiwedd cyfnod pob strategaeth i Gomisiynydd y Gymraeg ar gyflawniad y targedau a'r amcanion, ac mewn ardaloedd o arwyddocâd dwysedd uwch asesu llwyddiant ymyraethau sy'n amrywio polisi cyhoeddus.

Cam 2: Ymestyn dyletswyddau ac adnoddau ychwanegol i Gomisiynydd y Gymraeg

6.6 O ganlyniad i natur y safonau presennol nid yw'n arferol i'r Comisiynydd gyflwyno argymhellion i'r sefydliadau hynny sydd o dan y safonau hybu nac i Lywodraeth Cymru ar sail cyflawniad y safonau hybu. Rydym yn argymell y dylid cryfhau prosesau goruchwyliaeth y strategaethau hybu drwy ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd wneud yr isod yn ychwanegol i'w swyddogaethau presennol:

- Sicrhau a chefnogi cydymffurfiaeth sefydliadau â'r safonau hyn mewn modd mwy dwys a systematig, yn unol â fframwaith rheoleiddio mwy cadarn.
- Darparu cymorth a chefnogaeth ragweithiol i sefydliadau drwy gyhoeddi dogfennau cyngor, canllawiau, ymchwil, tystiolaeth, a rhannu arfer da.
- Darparu argymhellion a chyngor statudol i sefydliadau ar gyflawniad eu strategaethau yn seiliedig ar eu hadroddiadau blynyddol a'u hadroddiadau diwedd cyfnod.
- Cyfrifoldeb i asesu llwyddiant y strategaethau, yn flynyddol ac ar ddiwedd eu cyfnod, gan gynnwys asesu llwyddiant ymyraethau sy'n amrywio polisi cyhoeddus mewn ardaloedd o arwyddocâd dwysedd uwch.
- Byddai'r asesiadau uchod yn sail tystiolaeth ar gyfer gwneud sylwadau ac argymhellion i Weinidogion Cymru ynghylch sut i amrywio a datblygu polisi cenedlaethol, lle mae angen buddsoddiad a chefnogaeth bellach yn seiliedig ar yr hyn sydd yn gweithio. Byddai gan y Comisiynydd felly rôl yn gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru a fyddai'n hwyluso datblygiad polisi cenedlaethol a hynny'n seiliedig ar gyfrifoldeb y Comisiynydd yn cefnogi a monitro proses gweithredu ar lawr gwlad.

6.7 Byddai angen i Lywodraeth Cymru ddarparu adnodd ychwanegol er mwyn galluogi'r Comisiynydd i ymgymryd â'r dyletswyddau ychwanegol uchod.

Cam 3: Darparu adnoddau ychwanegol i bartneriaid a sefydliadau sy'n cyfrannu at weithredu elfennau o strategaethau hybu'r Gymraeg

6.8 Byddai'r strategaethau lleol yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i Lywodraeth Cymru ac i sefydliadau cenedlaethol sy'n gweithredu ar lawr gwlad i gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Byddai modd felly sianelu a chynllunio buddsoddiad ar

sail dealltwriaeth fanwl o anghenion lleol, ac ar sail cyfundrefn gynllunio llawer cryfach a fydd â threfniadau atebolrwydd cadarn.

6.9 Yr awdurdodau lleol a'r parciau cenedlaethol fyddai'n atebol am weithrediad y strategaethau hybu. Fodd bynnag, yn sgil cryfhau'r fframwaith cynllunio ieithyddol cymunedol rydym yn rhagweld y byddai angen darparu adnodd ychwanegol i bartneriaid allweddol sy'n darparu gwasanaethau a gweithgareddau cyfrwng Cymraeg yn lleol. Mae angen i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol ac eraill ddarparu adnoddau a buddsoddiad ychwanegol i sefydliadau fel y mentrau iaith, Mudiad Meithrin, yr Urdd, yr Eisteddfod Genedlaethol a chlybiau chwaraeon – i'w galluogi i weithredu elfennau allweddol o'r strategaethau hyn. Byddai'r strategaethau hybu yn ogystal yn gyfrwng i gynyddu'r angen i fudiadau cymunedol lleol o bob math gynyddu eu darpariaeth a'u gwasanaethau Cymraeg.